Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



# Rhannwch eich barn ar ein syniadau cynnar ar gyfer y cynllun newydd

## Ein blaenoriaethau drafft ar gyfer 2027 i 2032:

Cefnogi gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar yng Nghymru

Adborth erbyn 27 Mawrth 2026

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

# Manylion cyswllt

**Gofal Cymdeithasol Cymru**
Tŷ South Gate
Stryd Wood
Caerdydd CF10 1EW
Ffôn: 0300 3033 444
Ebost: info@socialcare.wales

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, storio mewn system adfer na throsglwyddo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn drwy unrhyw ffurf heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylid anfon unrhyw geisiadau i atgynhyrchu deunydd y tu allan i’r hyn a ganiateir gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad uchod.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Trosolwg

Rydyn ni eisiau eich barn a'ch syniadau am ein meysydd ffocws yn y dyfodol i'n helpu i ddatblygu ein cynllun strategol pum mlynedd ar gyfer 2027 i 2032. Mae'r ymgysylltiad hwn yn rhannu ein syniadau cynnar ar gyfer y cynllun newydd cyn i ni ymgynghori'n ffurfiol ar ei gynnwys llawn.

# Pwy ydyn ni?

Ni yw'r rheoleiddiwr ar y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru, sy'n golygu ein bod yn cofrestru ymarferwyr, yn gosod safonau ymarfer ac yn cynnal ymchwiliadau ffitrwydd i ymarfer. Rydyn hefyd yn gyfrifol am ddatblygu gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar, cefnogi gwella ac arloesi gwasanaethau, a chefnogi'r defnydd o tystiolaeth mewn ymarfer.

# Ein cynllun strategol

Mae ein cynllun strategol yn nodi sut y byddwn yn gweithio tuag at ein gweledigaeth hirdymor a'r canlyniadau yr ydyn am eu cyflawni ar gyfer pobl, y gweithlu a'r sector. Mae'n canolbwyntio ar ein blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae ein cynllun presennol yn rhedeg tan fis Mawrth 2027. Dros y misoedd nesaf, rydyn am gasglu eich barn i helpu i benderfynu ar y ffocws ar gyfer y cynllun nesaf. Mae hwn yn gyfle i fyfyrio ar ein syniadau cynnar ac i ddylanwadu ar gyfeiriad ein cynllun strategol nesaf.

# Sut i ymateb

Gallwch rannu eich barn drwy:

- cwblhau'r arolwg ar-lein yn: [Arolwg Ymgysylltu Cynllun Strategol Gofal Cymdeithasol Cymru 2027-32]
- Cwblhau'r ddogfen hon a'i hanfon drwy e-bost at: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru
- Argraffu copi o'r ddogfen hon, cwblhau'r cwestiynau ar dudalennau 16 i 18, a'i bostio i:

Gofal Cymdeithasol Cymru, South Gate House, Stryd Wood, Caerdydd CF10 1EW.

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgysylltiad yw 27 Mawrth 2026.

Unwaith y bydd y cyfnod ymgysylltu wedi cau, byddwn yn ystyried yr holl adborth ac yn symud ymlaen i'r cam nesaf o ddatblygu'r cynllun strategol newydd.

Diolch am gymryd yr amser i ddweud wrthym beth ydych chi'n ei feddwl.

## Sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei roi i ni

Bydd eich ymateb yn cael ei ddarllen gan y tîm sy'n gweithio ar yr ymgysylltiad hwn a'n cynllun strategol newydd. Efallai y bydd staff eraill yn ei weld i helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

# Cyfnod Ymgysylltu: Ein blaenoriaethau drafft ar gyfer 2027 i 2032

## Rhagair gan ein Prif Weithredwr a'n Cadeirydd

Diolch am helpu i lunio ein blaenoriaethau ar gyfer 2027 i 2032. Mae eich mewnwelediad yn allweddol wrth i ni ddatblygu ein cynllun strategol nesaf.

Mae gofal a chymorth yng Nghymru yn seiliedig ar egwyddorion atal ac ymyrraeth gynnar, lles, cyd-gynhyrchu, a sicrhau bod gan bobl lais a rheolaeth. Mae'n cael ei lunio gan anghenion ac uchelgeisiau unigolion a chymunedau. Mae gennym gyfrifoldeb i gynllunio ar gyfer anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, Yng Ngofal Cymdeithasol Cymru, rydyn ni wedi ymrwymo i gefnogi a chryfhau gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Mae ein cynllun strategol presennol yn rhedeg tan fis Mawrth 2027. Rydyn ni eisiau eich barn ar ein syniadau cynnar ar gyfer y cam nesaf. Bydd eich adborth yn ein helpu i sicrhau bod ein blaenoriaethau'n adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf i bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr, y gweithlu a'n partneriaid.

Mae'r rhan fwyaf o ofal yng Nghymru yn dda, gan adlewyrchu proffesiynoldeb ac ymrwymiad y gweithlu. Er hynny, mae heriau'n parhau. Mae angen i gymunedau allu cael gofal a chymorth integredig yn brydlon. Mae angen i'r sector gael digon o weithwyr medrus sy'n cael eu gwerthfawrogi. Rhaid i wasanaethau allu ymateb i'r galw sy'n tyfu ac yn newid.

Ein rôl ni yw cefnogi gwelliant, cryfhau'r gweithlu a chyfrannu at ddyfodol hirdymor gofal a chymorth drwy bartneriaeth, ymchwil a thystiolaeth. Byddwn yn parhau i gynnal safonau uchel yn y gweithlu ac yn ymateb yn briodol pan fo pryderon yn codi, i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal uniondeb y proffesiwn.

Gyda'r etholiadau Senedd ym mis Mai a Rhaglen Lywodraethu newydd i'w dilyn, mae hwn yn gyfnod pwysig. O fis Ebrill i fis Awst, byddwn yn adolygu'r adborth o'r ymgysylltiad hwn. Ar ôl i'r Rhaglen Lywodraethu gael ei chadarnhau, byddwn yn

cyhoeddi diweddariad ac yn gofyn am eich barn, gan gynnwys fesur effaith a goblygiadau i'r Gymraeg, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Ein huchelgais yw sicrhau bod pawb yn cael eu cefnogi i wneud yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, eu teulu a'u cymuned. Mae hyn yn golygu system ofal a chymorth sy'n lewyrchus, gynhwysol ac yn barod ar gyfer y dyfodol, ac sy'n darparu rhagoriaeth i bobl ledled Cymru. I gyflawni hyn, bydd angen cydweithio, arweinyddiaeth gref, diwylliannau cadarnhaol ac ymrwymiad i dystiolaeth ac arloesedd moesegol.

Diolch am gyfrannu. Bydd eich llais yn ein helpu i lunio cynllun sy'n ymateb i heriau heddiw ac yn paratoi ar gyfer yfory.

# Ein gweledigaeth ar gyfer 2050

Yn 2050 mae pawb yn cael eu cefnogi i wneud yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, eu teulu a'u cymuned.

Erbyn 2050, rydyn ni eisiau system gofal a chymorth sy’n lewyrchus, gynhwysol a pharod i'r dyfodol sy'n cyflawni rhagoriaeth gyson mewn lles, arweinyddiaeth ac amgylcheddau gofal yng Nghymru. Yn ganolog i hyn mae gweithlu amrywiol, medrus a gwerthfawr sy’n cael ei alluogi gan tâl teg, hunaniaeth broffesiynol gryf a llwybrau gyrfa hyblyg.

Trwy arweinyddiaeth feiddgar a diwylliannau cadarnhaol, gyda arweinyddiaeth cryf, adnoddau a sylfeini digidol da, bydd y sector yn cryf, trugarog ac ymatebol. Bydd gwasanaethau yn cadw pobl yn ddiogel, yn cefnogi annibyniaeth, ac yn gwella bywydau cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Adlewyrchu egwyddorion cyfunol [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)] a [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru)], gan gynnwys meddwl hirtymor, atal, integreiddio, cydweithio, a sicrhau bod gan bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, a'u teuluoedd, lais a rheolaeth wrth lunio gofal.

Er mwyn troi'r weledigaeth hirdymor hon yn weithred ystyrlon, mae angen darlun clir o'r sefyllfa presennol. Mae mewnwelediadau o'r gweithlu a data cenedlaethol amser real yn ein helpu i ddeall heriau a chyfleoedd heddiw, gan sicrhau bod ein huchelgeisiau ar gyfer 2027 i 2032 yn cael eu siapio gan brofiadau wir a thystiolaeth ddibynadwy. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i benderfynu ar ystod o fesurau a byddwn yn cynnwys y rhain yn ein cynllun strategol derfynol.

# Uchelgeisiau hirdymor ar gyfer y cynllun strategol

Mae'r ymgysylltiad hwn yn nodi ein blaenoriaethau drafft i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl, i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar ar yr hyn sy'n bwysig i unigolion, teuluoedd a'u gofalwyr.

Mae'r adrannau isod yn nodi ein tri uchelgais hirdymor drafft, y meysydd blaenoriaeth yr ydym yn bwriadu canolbwyntio arnynt, a sut rydyn yn bwriadu gweithio gyda chi dros y pum mlynedd nesaf i hyrwyddo ein gweledigaeth:

- cefnogi rhagoriaeth ar draws gwasanaethau gofal cymdeithasol
- adeiladu gweithluoedd gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar gwerthfawr a medrus
- llunio'r dyfodol gorau posibl ar gyfer gofal cymdeithasol

Mae’r uchelgeisiau hyn yn ddrafft ac yn cael eu rhannu fel rhan o’r ymgysylltiad hwn i wahodd adborth. Byddyn nhw’n cael eu mireinio ymhellach cyn terfynu’r cynllun strategol.

# Cefnogi rhagoriaeth ar draws gwasanaethau gofal cymdeithasol

## Pam rydyn ni'n meddwl y dylai hyn fod yn flaenoriaeth

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael gofal a chymorth da neu ragorol, ond mae cysondeb ledled Cymru yn parhau i fod yn her. Mae'n rhaid i wasanaethau ateb anghenion unigolion presennol ac yn y dyfodol, ynghyd â'u teuluoedd a'u gofalwyr.

## Beth rydyn ni eisiau'i gyflawni?

Erbyn 2050, rydyn ni eisiau i bob gwasanaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru gynnig cymorth rhagorol i bobl a staff. Mae hyn yn golygu gwasanaethau sy'n deg, yn gynhwysol ac yn ofalgar, ac sy'n cefnogi'r bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth yn ogystal a'r rhai sy'n ei ddarparu.

Rydyn ni eisiau sefydliadau barhau i ddysgu, defnyddio syniadau newydd yn gyfrifol a gweithio'n dda gyda'i gilydd. Drwy feithrin diwylliannau cadarnhaol, gwerthfawrogi amrywiaeth a'r iaith Gymraeg, a defnyddio tystiolaeth yn effeithiol, gallwn wella profiadau i bobl a chymunedau.

## Pwy fydd yn cymryd rhan?

Byddwn yn gweithio gydag arweinwyr, darparwyr, pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu gofalwyr, eu teuluoedd ac â'n partneriaid ar draws y system i wella lles, gofal a chymorth, arweinyddiaeth ac amgylcheddau gwasanaeth. Bydd llunwyr polisi, addysgwyr, rheoleiddwyr a sefydliadau cymunedol hefyd yn chwarae rhan bwysig.

## Erbyn diwedd 2032, i gefnogi rhagoriaeth mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol, byddwn yn:

- cefnogi arweinwyr i feithrin diwylliannau cadarnhaol a hyrwyddo gofal cynhwysol a thosturiol.
- hyrwyddo cydraddoldeb, cymhwysedd diwylliannol a phwysigrwydd y Gymraeg fel bod gwasanaethau yn adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau.

- darparu a defnyddio tystiolaeth i helpu gwasanaethau i ddysgu, addasu a gwella.
- cefnogi cyflogwyr gofal cymdeithasol i gynllunio a datblygu eu gweithluoedd.

# Adeiladu gweithluoedd gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar gwerthfawr a medrus

## Pam ydyn ni'n meddwl y dylai hyn fod yn flaenoriaeth?

Mae gofal rhagorol yn gofyn am weithlu rhagorol. Mae angen gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar digonol, proffesiynol ac amrywiol, sy'n fedrus, yn cael eu gwerthfawrogi ac sy'n diwallu anghenion ein cymunedau.

## Beth rydyn ni eisiau'i gyflawni?

Erbyn 2050, bydd gan Gymru weithluoedd sy'n amrywiol, yn cael eu parchu ac yn cael eu cydnabod fel rhai hanfodol i'n cymunedau a'n heconomi. Bydd pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn cael tâl teg ac yn falch o'u hunaniaeth broffesiynol. Bydd ein rôl reoleiddiol yn parhau i gynnal safonau uchel a hyder y cyhoedd, gan gefnogi proffesiwn cryf a dibynadwy.

## Pwy fydd yn cymryd rhan?

Byddwn yn gweithio gyda'r gweithlu, cyflogwyr, rheolwyr ac arweinwyr sy'n siapio diwylliant ac ymarfer. Byddwn hefyd yn gweithio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant, llunwyr polisi, a rheoleiddwyr i sicrhau bod llwybrau gyrfa a safonau yn adlewyrchu anghenion y sector. Bydd pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, a'u teuluoedd a'u gofalwyr, yn helpu i lunio ein dealltwriaeth o sut olwg sydd ar weithlu gwerthfawr.

## Erbyn diwedd 2032, i weithio tuag at adeiladu gweithluoedd gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar gwerthfawr a medrus, byddwn yn:

- cynnal safonau proffesiynol a hyder y cyhoedd trwy ein rôl reoleiddio.
- hyrwyddo cydnabyddiaeth y gweithlu a thâl teg, cydraddoldeb, cymhwysedd diwylliannol a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg.
- cefnogi gyrfaoedd a dysgu trwy fuddsoddi mewn datblygiad arweinyddiaeth, cryfhau llwybrau a gwella mynediad at hyfforddiant o ansawdd uchel.

- gweithio gyda chyflogwyr, darparwyr addysg a phartneriaid ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i rannu arfer gorau a chreu cyfleoedd ar gyfer datblygiad.

# Llunio'r dyfodol gorau posibl ar gyfer gofal cymdeithasol

## Pam ydyn ni'n meddwl y dylai hyn fod yn flaenoriaeth?

Mae pobl yng Nghymru angen cymorth amserol, integredig ac o ansawdd da. Wrth i anghenion dyfu ac wrth i bobl fyw'n hirach, mae'n bwysig bod cymunedau'n hyderus yng nghyllid, hygyrchedd ac ansawdd y gofal a chymorth.

## Beth ydyn ni eisiau'i gyflawni?

Erbyn 2050, rydyn ni eisiau i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru fod yn gryf, yn gynaliadwy ac yn barod ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn golygu bod arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd ar draws gwasanaethau a sectorau i gynllunio, gwella ac ymateb i anghenion sy'n newid.

Byddwn yn defnyddio tystiolaeth, ymchwil a syniadau newydd i helpu i lunio dulliau hirdymor sy'n rhoi mwy o reolaeth i bobl a gwella bywydau am flynyddoedd i ddod.

## Pwy fydd yn cymryd rhan?

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol a chymunedau, yn ogystal â sefydliadau addysg ac ymchwil. Bydd pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, a'u teuluoedd, yn ganolog i lunio gwasanaethau yn y dyfodol.

## Erbyn diwedd 2032, i weithio tuag at lunio dyfodol Gofal Cymdeithasol, byddwn yn:

- gweithio gyda phartneriaid ar ddyfodol uchelgeisiol gofal cymdeithasol
- darparu her a thystiolaeth i ysbrydoli trawsnewid
- gyrru strategaethau gweithlu a gwella effeithiol a hirdymor
- ymgorffori meddwl hirdymor, cydweithredu ac atebolrwydd cydrannol I helpu llunio system sy'n wydn, person-ganolog ac yn barod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# Beth nesaf?

Nawr rydyn ni'n gofyn am eich help i sicrhau bod ein cynllun pum mlynedd yn ein gosod ar y trywydd cywir. Ydyn ni'n canolbwyntio ar y pethau cywir? Ydyn ni'n ddigon beiddgar? Beth fydd canlyniadau ein gwaith?

Mae angen eich adborth arnom fel y gallwn fod yn hyderus bod ein gwaith yn parhau i ymateb i'ch anghenion ac eich bod chi’n cefnogi uchelgais ein cynllun pum mlynedd.

Atebwch y cwestiynau canlynol i'n helpu i symud o'r blaenoriaethau drafft hyn i gynllun strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

# Amdanoch chi a'ch sefydliad

Ydych chi'n ymateb i'r ymgysylltiad hwn:

a) yn unigol
b) ar ran sefydliad

Os ydych chi'n ateb fel unigolyn, a ydych chi:

- ☐ person sy'n defnyddio gofal a chymorth
- ☐ gweithiwr blynyddoedd cynnar
- ☐ rheolwr gofal cymdeithasol
- ☐ gweithiwr gofal cymdeithasol
- ☐ myfyriwr gwaith cymdeithasol
- ☐ perchennog lleoliad sy'n darparu gofal
- ☐ unigolyn cyfrifol
- ☐ cyflogwr gweithwyr gofal cymdeithasol
- ☐ gweithio ym maes addysg
- ☐ aelod o'r cyhoedd
- ☐ arall (dywedwch pwy):

Os ydych chi'n ateb ar ran sefydliad, allwch chi ddweud wrthyn pa sefydliad?

# Cwestiynau ymgysylltu

1. **Ar raddfa o 1 i 5, pa mor feiddgar yw ein gweledigaeth ar gyfer 2050?**
   (1 = ddim yn feiddgar, 5 = beiddgar iawn)

   ☐ 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ 4 ☐ 5

   **Rhowch unrhyw sylwadau isod:**

2. **Ar raddfa o 1 i 5, pa mor glir yw ein tri uchelgais ar gyfer 2027 i 32?**
   (1 = aneglur, 5 = clir iawn)

   ☐ 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ 4 ☐ 5

   **Rhowch unrhyw sylwadau isod:**

3. **Pa mor realistig yw ein huchelgeisiau ar gyfer 2027 i 32?**
   (1 = afrealistig, 5 = realistig iawn)

   ☐ 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ 4 ☐ 5

   **Rhowch unrhyw sylwadau isod:**

4. **Pa effaith gadarnhaol ydych chi'n meddwl y bydd yr uchelgeisiau hyn yn ei chael ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau?**

5. **Pa effaith gadarnhaol ydych chi'n meddwl y bydd yr uchelgeisiau hyn yn ei chael ar bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar, eu cyflogwyr a'u gwasanaethau?**

6. **Oes gennych unrhyw awgrymiadau neu ystyriaethau eraill y dylem eu hystyried wrth i ni ddatblygu ein cynllun hirdymor?**

7. **Hoffech chi fod yn rhan o'r cam nesaf o ddatblygu ein cynllun strategol?**

   ☐ Oes ☐ Nac oes

   Os oes, a allwch chi ddarparu eich enw a'ch cyfeiriad e-bost isod:

   Enw:

   Cyfeiriad Ebost: